# Datganiad Anheddle
## Blaenannerch
### Inset Rhif 10

### Disgrifiad

Mae Blaenannerch yn cynnwys tri chlwstwr o ddatblygiadau ar hyd rhyw hanner milltir o'r A487(C), tua 6.4 km (4 milltir) o Aberteifi a 17.7 km (11 milltir o'r Post-mawr. Datblygu stribedog sydd yma'n bennaf ar hyd y mân ffyrdd oddi ar y gefnffordd.

Mae ym Mlaenannerch ragor na 65 o anheddau. Ymhlith y cyfleusterau lleol mae siop/swyddfa bost, gorsaf betrol a chapel. Clywir yr iaith Gymraeg yn feunyddiol yn y pentref. Mae gwasanaeth bysys beunyddiol rhwng Aberystwyth/Aberteifi a llwybrau bysys cylchog i Aberteifi ac yn ôl: a llwybrau bysys cylchog lleol ar rai diwrnodau. Mae maes awyr yn ymyl. Mae'r ysgol gynradd agosaf i'w chael ym Mlaenporth, un filltir i'r dwyrain. Mae gwelliannau i'r pafinoedd ar y gefnffordd wedi gwneud y gymuned yn fwy diogel.

### Ymateb i'r Ymgynghori

Gofynnwyd am gynnwys rhagor o dir o fewn y terfynau er mwyn cyflawni'r galw tebygol a ddaw wrth i'r safle cyflogaeth gael ei ddatblygu.

### Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned

Bydd dyfodol y pentref bach hwn ac i raddau y wlad o'i amgylch yn cael ei benderfynu gan y datblygiad ar y maes awyr a'r Safle Cyflogaeth Strategol Allweddol yn ne Ceredigion. Bydd hyn yn help o ran darparu llewyrch economaidd a chyfleoedd yn yr ardal. Bydd diogelwch ac amwynderau'r gymuned yn ystyriaeth bwysig wrth asesu cynigion i ddatblygu ar y Safle Cyflogaeth Strategol Allweddol a'r maes awyr gwledig. Mae tir wedi ei warchod ar gyfer defnydd hamdden awyr agored gan y gymuned i'r de i'r pentref.

### Cyfyngiadau ar Ddatblygu

Fodd bynnag, nid y pentref hwn yw'r lle mwyaf priodol ar gyfer datblygu preswyl a hynny oherwydd diffyg isadeiledd, ei faint a natur wasgaredig y pentref; a'r posibiliadau sydd ar gael mewn mannau eraill sydd â'r gallu i dderbyn twf.

I gael manylion am y cyfyngiadau ar ddatblygu a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â'r Safle Cyflogaeth Strategol Allweddol, gweler y Rhestr Cynigion Cyflogaeth.

**Isadeiledd**

Nid yw'r ddaear yn addas ar gyfer tanciau septig a ffosydd cerrig. Mae'n rhaid cadw carthion aflan mewn carthbyllau wedi eu selio sy'n dal dŵr i warchod rhag llygru dŵr daear.

# Settlement Statement
## Blaenannerch
### Inset Number 10

### Description

Blaenannerch comprises three clusters of development along a half mile stretch of the A487(T), some 6.4 km (4 miles) from Cardigan and 17.7 km (11 miles) from Synod Inn. Development has primarily occurred in ribbon format along minor roads branching off the trunk road.

Blaenannerch comprises over 65 dwellings. Local facilities include a shop/post office, petrol station and chapel. The Welsh language is in every day use in the settlement. It is served by the Aberystwyth/Cardigan and Cardigan circular bus routes serviced daily: and on local circular routes serviced on certain days. It lies adjacent to an airfield. The nearest primary school is at Blaenporth, one mile to the east. Enhancements to footways on the trunk road contribute to the safety of the community.

### Consultation Response

Requests were made for the inclusion of additional land within the boundary to service increased market demand likely to occur with the development of the employment site.

### Vision for the Community

The future of this small settlement and to some extent the wider rural area will be determined by the development of the airfield and the Key Strategic Employment Site for the south of Ceredigion. This will help provide economic prosperity and opportunities within the area. The safety and amenity of the community will be an important consideration in the assessment of development proposals associated with the Key Strategic Employment Site and rural airport. Land is safeguarded for outdoor recreational use by the community to the south of the settlement.

### Constraints on Development

The settlement is however, not seen as the most appropriate location for residential development due to the lack of infrastructure, its size and the fragmented nature of the settlement; and the options available elsewhere in the area which have the capacity to absorb growth.

For details of development constraints and opportunities relating to the Key Strategic Employment Site, see the Employment Proposals Schedule.

**Infrastructure**

Ground conditions are not suitable for the use of septic tanks and soakaways. Foul drainage must be contained in sealed watertight cesspools to prevent pollution of groundwaters.